

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i Wahaniaethu yn erbyn Pobl sy'n Byw gyda HIV gan Weithwyr Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd.

Mehefin 2010

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn. Mae cydraddoldeb a hawliau dynol ymhlith gwerthoedd sylfaenol y GIG yng Nghymru ac mae gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â HIV nid yn unig yn annerbyniol ond hefyd yn anghyfreithlon. Rwy'n benderfynol o ddileu'r math hwn o wahaniaethu ym mha le bynnag y mae'n bodoli yn ein gwasanaeth iechyd.

Mae llawer o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad yn cyfateb yn dda i'n polisiâu presennol ac rwy'n falch o ddweud fy mod yn gallu derbyn y rhan fwyaf ohonynt.

Un o'r materion allweddol sydd wedi codi fel rhan o'r Ymchwiliad hwn yw diffyg tystiolaeth 'ffurfiol' am wahaniaethu. Mae arolwg AIDS Trust Cymru ar gyfer yr Ymchwiliad ac, yn fwy diweddar, adroddiad yr HIV Stigma Index, 'Give Stigma the Index Finger',¹ yn dangos bod rhai pobl sy'n byw gyda HIV yng Nghymru wedi dioddef gwahanol fathau o wahaniaethu yn y gwasanaeth iechyd. Ar y llaw arall, nid yw'r Ymchwiliad wedi dod ar draws cwynion 'ffurfiol' i'r GIG ar y mater.

Rwy'n sylweddoli bod y stigma sy'n gysylltiedig â HIV yn aml yn rhwystro pobl rhag codi llais pan fyddant wedi dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn. Rwy'n awyddus i sicrhau bod pobl sydd â HIV yn teimlo'u bod nhw'n gallu riportio a herio gwahaniaethu yn y man lle mae'n digwydd fel y gellir ymchwilio iddo a chymryd y camau priodol.

Mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn awgrymu bod yna wahanol fathau o wahaniaethu. Ymddengys bod rhai o'r arferion y cyfrifir eu bod yn wahaniaethol yn ganlyniad diffyg dealltwriaeth am HIV a chymryd rhagofalon cyffredinol. Amcangyfrifir nad yw traean o'r bobl yn y DU sydd ag HIV wedi'u diagnosio. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn cadw at y canllawiau presennol er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng atal lledaeniad HIV sydd heb ei ddiagnosio a firsau eraill a gludir yn y gwaed, a sicrhau nad yw cleifion sydd wedi cael diagnosis HIV yn gorfod cymryd rhagofalon ychwanegol diangen a fyddai'n gwahaniaethu yn eu herbyn.

Cyn hir, byddaf yn lansio Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol Cymru. Mae hwn yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddal ati i wella iechyd rhywiol yng Nghymru, i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd rhywiol ac i feithrin trafodaeth fwy agored am ryw, rhywioldeb ac iechyd rhywiol. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu hwn, rwyf wedi pwysleisio'r angen i ganolbwyntio o'r newydd ar atal a thrin HIV. Rwy'n benderfynol o

¹ www.ippf.org/NR/rdonlyres/.../0/InitialFindingsStigmaIndex.pdf

barhau â rhaglen o atal HIV yng Nghymru, gan gefnogi Cyswllt HIV Cymru Gyfan, a gwella gofal iechyd i bobl sydd â HIV/AIDS trwy weithredu argymhellion 'Darparu ar gyfer anghenion pobl gyda HIV/AIDS yng Nghymru: Llwybrau Gofal Cenedlaethol a Manyleb Gwasanaeth ar gyfer profi, diagnosis, triniaeth a gofal cefnogol'.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu, dechreuwyd ar y gwaith o adolygu a chryfhau Cyswllt HIV Cymru Gyfan. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymryd drosodd y gwaith o reoli Cyswllt HIV Cymru Gyfan ac mae'r Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol (PPG) yn dal i gael eu harwain gan elusennau HIV yn lleol. Cytunodd aelodau Cyswllt HIV Cymru Gyfan mai nod Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol erbyn hyn yw sicrhau 'partneriaeth lawn a theg fel y gall profiad a thystiolaeth ddylanwadu ar bolisiau ac arferion'. Yn y gorffennol, mae darparwyr gwasanaethau HIV lleol wedi mynychu Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol sy'n fforwm delfrydol ar gyfer adrodd yn ôl i'r byrddau iechyd lleol am y gofal a ddarperir. Rhan o swyddogaeth a chyfrifoldeb y Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol lleol fydd adrodd yn ôl i'r grŵp ehangach am brofiadau o stigma a gwahaniaethu. Bwriedir lansio gwefan newydd ar gyfer Cyswllt HIV Cymru Gyfan ddiwedd Gorffennaf ac mae fforwm cyfrinachol ychwanegol ar y rhyngwyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau sy'n HIV positif.

Mae'r Cyswllt yn cynnal asesiad o anghenion pobl sy'n byw gyda HIV yng Nghymru. Bydd rhan o'r asesiad hwn yn edrych ar brofiadau o stigma a gwahaniaethu. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw gyda HIV mewn cysylltiad, o anghenraid, â'r sector gwirfoddol HIV ac mae'n bwysig bod eu barn nhw'n cael ei chyfrif hefyd. Bydd yr asesiad hwn yn ceisio cyrraedd llawer iawn o bobl sy'n byw gyda HIV. Disgwylir y caiff adroddiad ei gyhoeddi ddiwedd Gorffennaf.

Yn ddiweddar, wrth ystyried Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010, argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol efallai yr hoffai'r Llywodraeth ystyried effaith y rheoliadau hyn, mewn perthynas â materion yn ymwneud â stigmatiddio pobl sydd ag HIV neu heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol (STIs). Gwneir Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel y diwygiwyd hi. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i Ynad Heddwch (YH) wneud Gorchmynion Rhan 2A yn gosod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl er mwyn diogelu rhag haint neu halogiad sy'n gwneud, neu a allai wneud, niwed arwyddocaol i iechyd pobl. Mae'r rheoliadau'n ychwanegu at y Ddeddf trwy gyflwyno'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei chael cyn y caiff Ynad Heddwch wneud gorchmyn a thrwy ddarparu mesurau diogelu i warchod pobl a allai fod yn destun gorchmyn.

O dan y ddeddfwriaeth, cyn y gall Ynad Heddwch wneud gorchmyn, mae'n rhaid bodloni gofynion caeth o ran meini prawf a thystiolaeth sy'n golygu na ellir gwneud gorchmyn os nad yw hynny'n angenrheidiol ac nad oes ffordd arall o sicrhau'r canlyniad a ddymunir o ran diogelu iechyd. Nid bwriad y pwerau yw cynyddu'r gwahaniaethu na'r stigma y mae grŵp neilltuol o bobl yn eu hwynebu.

Mae'r holl orchmynion sy'n gosod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl yn cael eu cyfyngu i uchafswm o 28 diwrnod a gellir eu hamrywio neu eu dirymu. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n cael gwybod am unrhyw orchmynion fel y gellir craffu arnynt a'u cyhoeddi. Trwy adrodd ar orchmynion Rhan 2A a'u monitro fel hyn, gellir sicrhau bod modd gweithredu os bydd tystiolaeth bod gorchmynion yn cael eu defnyddio'n amhriodol yn erbyn grŵp neilltuol o bobl.

Er ei bod yn bwysig gwarchod y cyhoedd rhag perygl heintio neu halogi, mae yr un mor bwysig gwarchod hawliau unigolion, a pheidio â chynyddu'r gwahaniaethu neu'r stigmatiddio a ddioddefir gan un grŵp o bobl. Mae'r rheoliadau'n cynnig mesurau diogelu effeithiol i warchod pobl, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, rhag y posibilrwydd y caiff y pwerau hyn eu camddefnyddio.

Isod, nodaf fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Caiff ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad eu nodi isod:

Sylfaen y dystiolaeth ynghylch Gwahaniaethu

1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mentrau a gyflwynwyd gan rai byrddau iechyd lleol i wella profiadau cleifion, yn enwedig y grwpiau cynnwys y cleifion a'r cyhoedd a sefydlwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog byrddau iechyd lleol eraill i ystyried gweithredu mentrau tebyg

Yr Ymateb: Derbyn

Mae cynnwys cleifion yn natblygiad gwasanaethau iechyd yn allweddol er mwyn gwella profiad cleifion yn y GIG ac rwy'n cymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Fel y soniwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn, mae Cyswllt HIV Cymru Gyfan yn cefnogi Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol Lleol. Rhan o gylch gwaith y grwpiau hyn yw cynnig llwyfan fel y gall darparwyr gwasanaethau a phobl HIV positif gydweithio i wella gwasanaethau yn eu hardal. Yn wir, mewn rhai ardaloedd bu darparwyr gwasanaethau iechyd lleol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd ac mae hyn wedi arwain at welliannau yn y gwasanaethau a ddarperir.

Fe wnaif i ysgrifennu at y byrddau iechyd lleol i ofyn iddynt ystyried pe drefniadau sydd ganddynt i gydweithio â phobl HIV positif er mwyn gwella eu gwasanaethau. Byddaf yn defnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at Gyswllt HIV Cymru Gyfan a Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Mae cyllid y Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol yn dod o'r cyllidebau presennol.

Cwynion

2. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai elusennau AIDS ac HIV sydd yn y sefyllfa orau i gynghori cleifion am eu hawliau cyfreithiol yn cynnwys unrhyw hawliau sydd ganddynt o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1996 neu ddeddfwriaeth a ddaw i rym eto. Argymhellwn eu bod yn adeiladu ar y swyddogaeth hon er mwyn gweithredu fel eiriolwyr dros unrhyw gleifion sy'n dymuno cymryd camau cyfreithiol ar ôl profi gwahaniaethu yn eu herbyn a chredwn y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymroi i ddefnyddio'u pwerau a'u harbenigedd i gefnogi'r elusennau.

Yr Ymateb: Derbyn

Rwy'n cytuno bod gan elusennau HIV ac AIDS ran bwysig i'w chwarae yn helpu cleifion sy'n cael profiad o wahaniaethu a'u bod yn gweithredu fel eiriolwyr drostynt os cymerir camau cyfreithiol oherwydd y gwahaniaethu. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd bod pob claf yn teimlo y gall fynegi pryder am ei (g)ofal iechyd, heb deimlo bod rhaid cymryd camau cyfreithiol, a bod y rhan berthnasol o'r GIG yn ymdrin â'r mater yn briodol ac yn brydlon. Yn ddiweddar, rwyf wedi ymgynghori ar set o reoliadau drafft (Rheoliadau drafft y GIG (Pryderon, Cwynion a Gwneud lawn am Gamweddau) (Cymru) 2010) a fydd yn sylfaen ar gyfer trefniadau newydd i ddelio â phryderon am y GIG yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn, y bwriadaf eu gosod gerbron y Cynulliad ar ôl toriad yr haf, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff y GIG ddarparu ar gyfer anghenion penodol pobl sy'n codi pryderon, a sicrhau bod pobl yn cael yr wybodaeth briodol am y broses. Yn ogystal, caiff unrhyw glaf ofyn i Wasanaethau Eiriolaeth y Cynghorau Iechyd Cymunedol os byddant yn dymuno mynegi pryder am eu gofal iechyd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Mae hyn yn dod o fewn cylch gwaith presennol yr elusennau a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

3. Credwn y gellid hybu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer achosion o wahaniaethu pe bai elusennau'n hysbysu'r byrddau iechyd lleol yn anffurfiol o unrhyw achosion sy'n codi er mwyn iddynt gael gwybod amdanynt ac y gallant gadw cofnod.

Yr Ymateb: Gwrthod

Rwy'n cytuno bod angen i ni hybu'r sylfaen dystiolaeth am achosion o wahaniaethu'n ymwneud â HIV. Fodd bynnag, mae nifer o anawsterau cyfreithiol a allai godi gyda'r argymhelliad hwn ac felly ni allaf ei dderbyn. Yn gyntaf, mae pryder am effeithiolrwydd y cofnodion gan fod y broses a argymhellir mor anffurfiol. Ni fyddai ymchwiliad wedi'i gynnal i unrhyw honiadau a gâi eu dwyn i sylw'r byrddau iechyd lleol fel hyn ac ni fyddai prawf wedi'i roi ar fersiwn yr achwynydd. Felly, gallai'r byrddau iechyd lleol fod yn cofnodi enghraifft o wahaniaethu na fyddai wedi'i phrofi pe bai'n destun ymchwiliad.

Yn ail, efallai na fyddai'r achwynwyr yn fodlon i'w pryderon gael eu trosglwyddo i fyrddau iechyd lleol fel hyn ac y byddai'n well ganddynt siarad yn gyfrinachol â'r elusennau.

Yn drydydd, er mai'r bwriad yw i'r byrddau iechyd lleol gadw cofnod anffurfiol yn unig o honiadau o wahaniaethu, byddai'n rhaid iddynt ystyried sut y byddent yn trafod cwyn ddifrifol pe baent yn derbyn un yn y dull hwn. Pe baent yn dymuno ymchwilio i'r mater, gallai fod angen cydweithrediad yr achwynydd ac efallai na fyddai'r achwynydd yn dymuno gwneud hynny.

Yn bedwerydd, pe na bai byrddau iechyd lleol yn ymchwilio i gwynion a gâi eu dwyn i'w sylw o dan y broses hon, gallai hynny fod yn annheg ar y sawl yr honnir iddynt fod yn gyfrifol am y gwahaniaethu. Efallai na fyddent byth yn cael gwybod bod y cwynion hyn wedi'u gwneud yn eu herbyn nac yn cael cyfle i'w hamddiffyn eu hunain nac i glirio'u henw.

Yn olaf, gallai defnydd fel hyn ddod o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, sy'n ei gwneud yn ofynnol bodloni nifer o amodau cyn y gellir ei gadw neu ei brosesu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Felly, gallai'r byrddau iechyd lleol fod yn torri egwyddorion diogelu data pe baent yn cadw'r wybodaeth hon heb ei chadarnhau.

Credaf mai achosion o wahaniaethu a brofwyd fydd yn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth. Os yw claf yn cael profiad o wahaniaethu, dylid annog a chefnogi'r claf i symud y gŵyn ymlaen trwy drefn gwynion y GIG a/neu trwy'r corff proffesiynol perthnasol fel y gellir ymchwilio iddi. Fel yr amlinellais yn fy ymateb i argymhelliad 2, byddaf yn cyflwyno rheoliadau drafft i'r Cynulliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddarparu ar gyfer anghenion neilltuol pobl sy'n codi pryderon, a sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth briodol am y broses. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi trwy Wasanaethau Eiriolaeth y Cynghorau Iechyd Cymuned yn ogystal ag elusennau HIV. Yn ogystal, mae Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol Cyswllt HIV Cymru Gyfan eisoes yn llwyfan lle gall pobl HIV positif godi materion gyda byrddau iechyd lleol a chydweithio i wella gwasanaethau yn eu hardal. Byddaf yn gofyn i'r Cyswllt HIV a'r Cynghorau Iechyd Cymuned sicrhau bod cysylltiadau da rhwng y Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw arian ychwanegol yn dod o'r cyllidebau presennol.

Diffyg Gwybodaeth, Profiad a Sgiliau

4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trefnu gyda'r byrddau iechyd lleol i ganiatáu i'r holl bractisiau meddygon teulu a deintyddion gael cysylltu ag arbenigwr HIV trwy'r e-bost neu dros y ffôn i drafod triniaeth cyn rhoi presgripsiwn. Byddai hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael meddyginiaeth briodol heb orfod holi eu harbenigwr.

Yr Ymateb: Derbyn

Rwy'n cytuno mai ymarferwyr gofal sylfaenol ddylai ateb gofynion gofal sylfaenol claf nad ydynt yn gysylltiedig â HIV ac na ddylid cyfeirio'r claf at yr arbenigwr HIV. Bydd hyn yn rhoi gwasanaeth mwy derbyniol i gleifion ac yn gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon trwy beidio â chynnal sesiynau diangen gydag Arbenigwyr HIV.

Mae cyfathrebu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol yn allweddol er mwyn datrys y mater hwn. Os yw clinig arbenigol yn darparu rhai meddyginiaethau a gofal sylfaenol yn darparu meddyginiaethau eraill, mae perygl na fydd un ohonynt yn gwybod am newidiadau a wneir gan y llall. Felly, mae pryder y gellid rhoi cyffuriau a fydd yn effeithio ar ei gilydd heb sylweddoli hynny. Os ceir cyfathrebu manwl a phrydlon, gellir datrys y materion hyn ond, yn aml, mae cyfathrebu'n cymryd amser.

Mae nifer o ffyrdd o wella'r sefyllfa hon ac mae gan gyfathrebu electronig ran fawr i'w chwarae'n datrys y materion hyn. Dylai fod modd cael cyngor arbenigol ar roi presgripsiynau gan dimau fferyllol y byrddau iechyd lleol neu trwy ymgynghori â chydweithwyr mewn clinigau arbenigol fel yr awgrymir yn yr argymhelliad.

Yn y cyd-destun hwn, mae hefyd yn bwysig cydnabod y rhan y mae pobl sydd â HIV yn ei chwarae yn herio arferion gwael. Yn ôl y Stigma Index Report, roedd 45 y cant o'r bobl a holwyd wedi herio, wynebu neu addysgu rhywun a fu'n eu stigmatiddio. Yng Nghymru, mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn cynnig y Rhaglen Cleifion Arbenigol yn arbennig ar gyfer pobl sydd â HIV. Mae rhan o'r rhaglen hon yn ystyried sut y gall y claf gydweithio â'r rhai sy'n darparu gofal iechyd iddo/iddi. Gall 'claf arbenigol' fod mewn sefyllfa dda i herio'r hyn sy'n ymddangos iddo/iddi fel arferion amhriodol neu ddiangen.

Fe ofynnaf i'r byrddau iechyd lleol ystyried y trefniadau gorau ar gyfer cefnogi ymarferwyr gofal sylfaenol wrth iddynt ofalu am bobl HIV positif

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau eu tynnu o'r cyllidebau presennol.

Hyfforddiant

5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y byrddau iechyd lleol yn defnyddio profiad ymgynghorwyr a nyrsys HIV arbenigol i gynnig hyfforddiant mewnol ar ddatblygiadau ym maes gofal HIV ar gyfer staff meddygol eraill

Yr Ymateb: Derbyn

Yn unol â'r enghraifft o arfer da a roddwyd i'r Ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, fe ofynnaf i bob bwrdd iechyd lleol ystyried cynnig hyfforddiant mewnol ar ofal HIV i staff meddygol eraill. Yn ogystal, fe ofynnaf

iddynt ystyried sut y caiff HIV ei drafod mewn hyfforddiant sylfaenol mewn cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd (2005).

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o'r cyllidebau hyfforddi presennol.

Ymwybyddiaeth o Weithdrefnau Traws-heintio

6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymarferiad i godi ymwybyddiaeth o drefniadau traws-heintio cyffredinol, yn cynnwys dangos posterï gwybodaeth mewn meddygfeydd meddygon teulu ac ystafelloedd aros ac ystafelloedd ymgynghori mewn ysbytai.

Yr Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Eisoës ceir llawer o ddefnyddiau gwybodaeth am ragofalon rheoli heintiau cyffredinol/safonol. Caiff y rhain eu hanelu'n bennaf at staff yr NHS a'u cynhyrchu'n lleol ac ar lefel Brydeinig gan gyrff fel byrddau iechyd lleol a'r Coleg Nyrsio Brenhinol. Yn ogystal, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu nifer o bolisiau enghreifftiol ar reoli heintiau e.e. polisi ar ddod i gysylltiad â heintiau yn y gweithle gan gynnwys anafiadau mewn cysylltiad â nodwyddau (neu declynnau miniog) a rheoli achosion o ollwng gwaed a hylifau'r corf. Gwelir y rhain ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae polisi enghreifftiol ar bolisiau a gweithdrefnau rhagofalon wedi'u seilio ar drosglwyddo heintiau wrthi'n cael ei ddatblygu.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o addasu'r defnyddiau sydd eisoës ar gael fel y gall y cyhoedd eu defnyddio.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio ag Adran Iechyd San Steffan i redeg ymgyrch trwy Brydain i addysgu pob rhan o'r gymdeithas am ffeithiau HIV er mwyn dileu'r atgofion am ymgyrchoedd sydd ar ôl yr oes erbyn hyn.

Yr Ymateb: Gwrthod

Rwy'n cytuno bod angen gwell dealltwriaeth o'r ffeithiau ynghylch HIV. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod yna dystiolaeth i awgrymu y byddai ymgyrch ledled Prydain yn ffordd effeithiol o sicrhau hyn. Nid yw stigma ynghylch HIV/AIDS yn fater syml gan fod agweddau pobl tuag at yr epidemig a'r sawl y mae'n effeithio arnynt yn amrywio'n fawr iawn. Bydd yr ymateb i HIV/AIDS yn amrywio o berson i berson ac o grŵp i grŵp. Gall crefydd, rhyw, rhywioldeb,

oedran a lefelau addysg am HIV/AIDS oll effeithio ar y ffordd y mae rhywun yn teimlo am y clefyd. Mae'n annhebygol y gall un ymgyrch trwy Brydain fynd i'r afael â'r holl agweddau hyn.

Mae angen gweithio mewn ffordd amlweddog gan hybu ymwybyddiaeth o HIV mewn gwahanol leoliadau, ymhlith gwahanol grwpiau diwylliannol ac ar draws oeddrannau.

Mae gan addysg rhyw a pherthnasoedd effeithiol mewn ysgolion ran bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod y ffeithiau am HIV. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol y bwriedir ei gyhoeddi, mae canllawiau newydd ar addysg rhyw a pherthnasoedd i ysgolion yn cael eu datblygu. Mae'r canllawiau diwygiedig yn adnewyddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ysgolion yn dysgu am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, yn cynnwys HIV/AIDS.

Mae'n wybyddus y gall y stigma sy'n gysylltiedig â HIV atal pobl rhag dod ymlaen i gael profion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu Rhaglen Atal HIV Cymru Gyfan. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwaith wedi cynnwys gweithio gyda chymunedau Affricanaidd lle mae llawer o stigma'n gysylltiedig â HIV, yn enwedig i fenywod. Gwnaed llawer o waith gyda chyrff a grwpiau cymunedol i hybu gwell dealltwriaeth o HIV a manteision cael prawf HIV. Datblygwyd dulliau o weithio yn y gymuned yng Nghymru gan gynnal profion pwynt gofal er mwyn sicrhau awyrgylch mwy cyfforddus yn y man profi.

Sylweddolir bod angen cryfhau gwaith yn ymwneud ag HIV mewn gwaith iechyd rhywiol mwy cyffredinol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n ystyried sut y gall eu timau iechyd cyhoeddus lleol gymryd mwy o ran mewn gwaith atal HIV. Mae Cyswllt HIV Cymru Gyfan yn cyfrannu at Gyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan. Disgwylir y bydd y Cyswllt Iechyd Rhywiol yn canolbwyntio mwy ar HIV. Mae gan Gyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan aelodaeth eang ac mae'n cynnig cyfleoedd i godi mater HIV a gwahaniaethu ymhlith cynulleidfau ehangach yn cynnwys byd addysg, y sector ieuencid, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol.

Bydd Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan yn cynnal adolygiad o'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru ym maes iechyd rhywiol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddant yn ystyried beth sydd ar gael am HIV/AIDS.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Gwneir hyn o fewn cyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

8. Clywodd y Pwyllgor bod Body Positive Gogledd Cymru a Sir Gaer eisoes wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddatblygu eu dealltwriaeth nhw o HIV. Credwn fod hyn yn hanfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac y dylid gwneud mwy o waith fel hyn. Deallwn fod yr elusennau'n wynebu pwysedd ariannol anodd ac argymhellwn fod

Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried cyflwyno grantiau ariannu penodol at y diben hwn.

Yr Ymateb: Gwrthod

Rwy'n cymeradwyo'r gwaith y mae Body Positive Gogledd Cymru a Sir Gaer eisoes wedi'i wneud gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddatblygu eu dealltwriaeth nhw o HIV. Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod y cyfle'n bodoli eisoes trwy Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol Cyswllt HIV Cymru Gyfan i weithio'n ehangach gyda'r gymuned leol. Arweinir y grwpiau hyn gan elusennau HIV lleol ac, yng Ngogledd Cymru, gwneir y gwaith hwn gan Body Positive. Mae Grwpiau Cyfranogiad Cadarnhaol eisoes wedi gweithio'n effeithiol gyda darparwyr gwasanaethau lleol yn cynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac, mewn rhai ardaloedd, yr heddlu. Fel y soniwyd yng nghyflwyniad y papur hwn, mae'r adolygiad o Gyswllt HIV Cymru Gyfan yn cynnwys cryfhau'r grwpiau hyn.

Rwyf am ofyn i Gyswllt HIV Cymru Gyfan ystyried sut y gall Grwpiau Cyfranogiad Cleifion Lleol gydweithio'n agosach â grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Gwneir hyn o fewn cyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

Stigma

9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog byrddau iechyd lleol i ganfod cyfleoedd ar gyfer cynnig gwasanaethau sgrinio am HIV fel mater o drefn, wrth sgrinio mamau cyn geni er enghraifft, a rhoi cynllun ar waith ledled Cymru fesul cam.

Yr Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ym mis Hydref 2007, ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol (CMO) a'r Prif Swyddog Nyrsio (CNO) at bob meddyg a nyrs yng Nghymru ynglŷn â gwella cyfraddau canfod a diagnosis HIV mewn arbenigeddau heblaw HIV yn cynnwys gofal sylfaenol.² Mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw at yr arferion gorau o ran cynnig ac argymhell profion HIV ym mhob lleoliad gofal iechyd. Mae'n annog meddygon a nyrsys i fod yn effro i'r amgylchiadau pryd y mae'n briodol cynnig ac argymhell prawf HIV.

Yn 2008, cafodd Canllawiau Cenedlaethol y DU ar Brofion HIV³ eu cyhoeddi ar y cyd gan y British HIV Association, British Association for Sexual Health and HIV a'r British Infection Society. Bwriad y canllawiau hyn yw hybu cynnydd mewn profion HIV mewn pob math o leoliadau gofal iechyd fel yr

² <http://wales.gov.uk/topics/health/ocmo/publications/cmo/2007/hiv/?lang=en>

³ <http://www.bhiva.org/HIVTesting2008.aspx>

argymhellir yn llythyr y Prif Swyddog Meddygol. Mae camsyniadau am brofion HIV yn dal i fodoli a hynny'n atal cynnydd yn nifer y profion. Yn benodol, mae llawer o glinigwyr o'r farn fod angen cwnsela am gyfnod hir cyn y prawf. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall unrhyw glinigydd gynnal prawf HIV gan ddilyn arferion clinigol da ac annog 'normaleiddio' profion HIV.

Fel dilyniant i lythyr 2007, byddaf yn gofyn i'r CMO a'r CNO ysgrifennu at y byrddau iechyd lleol gan dynnu sylw at Ganllawiau Cenedlaethol y DU ar Brofion HIV a pa gamau sy'n cael eu cymryd i'w gweithredu.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o'r cyllidebau presennol.

Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol sydd â HIV

10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'i hadolygiad, yn ystyried a ellir diweddarau'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Iechyd San Steffan yn 2005, gan drafod yn benodol a yw'r rheol o dynnu deintyddion sy'n HIV positif o'u gwaith ar unwaith yn gam cymesur i'w gymryd.

Yr Ymateb: Derbyn

Mae pedwar Prif Swyddog Deintyddol y DU wedi cymeradwyo gweithgor tairochrog sy'n cynnwys Panel Cyngori y DU ar AIDS, y Grŵp Cyngori Arbenigol ar AIDS a'r Grŵp Cyngori ar Hepatitis sydd wrthi'n cynnal adolygiad o'r polisi cyfredol ar weithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â firysau a gludir yn y gwaed. Bydd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r holl dystiolaeth berthnasol a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd angen i unrhyw newidiadau i'r canllawiau cyfredol gael eu seilio ar y dystiolaeth orau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Gwneir y gwaith o fewn y cyllidebau presennol.

Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.